## HYSBYSIAD o Benderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1 ac yn rhithwir ar Zoom ddydd Mawrth, 24 Hydref 2023

Cyhoeddir yr Hysbysiad hwn am 5:00pm dydd Iau, 26 Hydref 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 2 Tachwedd 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) dydd Gwener, 3 Tachwedd 2023.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Gwilym O Jones, Robert Ll Jones, Liz Wood.

**Ymddiheuriadau**: Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

(10.00 o'r gloch yb – 10.50 o'r gloch yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Amherthnasol |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Amherthnasol |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Amherthnasol |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Pennaeth Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith a ddiweddarwyd am y cyfnod Tachwedd 2023 i Fehefin 2024 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau yn rhai dros dro hyd nes bod yr archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon 2022/23 wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo; adroddir fel y bo'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad;**<br>• **Nodi dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2022/23 a gynhwysir yn yr adroddiad;**<br>• **Anfon Adroddiad yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2022/2023 ymlaen i'r Cyngor Llawn heb wneud unrhyw sylwadau pellach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gydymffurfio â rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol – mae'n rhaid i'r Cyngor** |

| | |
|---|---|
| | **Llawn gymeradwyo Adroddiad yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Rheoli'r Trysorlys - Chwarter 1, 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **Nodi'r adroddiad, y gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar 30 Mehefin 2023;**<br>• **Bod adroddiadau Rheoli Trysorlys Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu hadolygu a'u derbyn gan yr Aelod Portffolio Cyllid o hyn ymlaen a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn unig. Bydd yr adroddiadau canol blwyddyn yn dilyn yr un broses h.y. adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chod Darbodus CIPFA 2021.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2023-28**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **Nodi'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd;**<br>• **Argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor llawn yn mabwysiadu'r** |

| | |
|---|---|
| | **Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, a'i bod yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a bydd yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma;**<br>• **Awdurdodi'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio – Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer i baratoi'r ddogfen derfynol ar y fformat corfforaethol cyn llwytho'r ddogfen ar wefan y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bydd y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol – Mae'n rhaid i'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-2028 gael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn.** |